*Archwilio Ein Byd*

# Arwyddion a Symbolau

Un o lyfrau Aled a Siân



*Archwilio Ein Byd*

# Arwyddion a Symbolau

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

## Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar **hwb.wales.gov.uk/Adnoddau** a **st-marys-centre.org.uk**

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

## Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:



*Plant 3 – 5 oed*
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau

*Plant 5 – 7 oed*
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau





Mae Aled a Siân yn dweud wrth eu ffrindiau sut gwnaethon nhw ddilyn yr arwyddion i'r hen gastell.




Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud mai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd yn gofalu am y castell.




Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud wrthyn nhw am groesi'r rhyd yn ofalus.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud y gallen nhw aros yno i fwyta'u picnic.



Mae Aled a Siân yn llawn cyffro ynghylch sut gwnaethon nhw ddilyn yr arwyddion. Nawr, maen nhw eisiau clywed hanes eu ffrindiau hefyd.




Mae Peter a Mary'n dweud wrth Aled a Siân sut gwnaethon nhw ddilyn yr arwyddion i'r eglwys gerrig.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud mai Cristnogion lleol oedd yn gofalu am yr eglwys.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Cristnogion yn croesawu aelodau newydd trwy fedydd.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Cristnogion yn dod ynghyd i ddathlu'r cymun.





Mae Nathan a Rachel yn dweud wrth Aled a Siân sut gwnaethon nhw ddilyn yr arwyddion i'r synagog frics coch.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud mai Iddewon lleol oedd yn gofalu am y synagog.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Iddewon yn cofio'r bobl yn croesi'r Môr Coch.




Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Iddewon yn dod ynghyd i ddathlu'r Pasg Iddewig.




Mae Ahmed a Salma’n dweud wrth Aled a Siân sut gwnaethon nhw ddilyn yr arwyddion i’r mosg cromennog.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud mai Mwslimiaid lleol oedd yn gofalu am y mosg.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Mwslimiaid yn ymolchi cyn gweddïo.




Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Mwslimiaid yn dod ynghyd i ddathlu Eid.




Mae Rajeev a Meena'n dweud wrth Aled a Siân sut gwnaethon nhw ddilyn yr arwyddion i'r deml brysur.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud mai Hindŵiaid lleol oedd yn gofalu am y deml.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Hindŵiaid yn offrymu dŵr ar yr allorau.



Fe wnaethon nhw weld yr arwydd oedd yn dweud bod Hindŵiaid yn dod ynghyd i ddathlu puja.



Mae Aled a Siân yn mwynhau gwrando ar eu ffrindiau Peter a Mary, Nathan a Rachel, Ahmed a Salma, a Rajeev a Meena.




Maen nhw'n dychmygu gweld arwyddion – croes yr eglwys,
Seren Dafydd y synagog, lleuad gilgant y mosg, ac Om y deml.



Mae Aled a Siân yn clywed sut mae crefyddau'r byd yn arddangos eu harwyddion yng Nghymru.



Mae Aled a Siân yn archwilio arwyddion a symbolau ac maen nhw'n ymweld â chastell hynafol. Pan fyddan nhw'n dod yn ôl, mae Aled a Siân yn dweud yr hanes am eu diwrnod allan wrth eu ffrindiau, ac maen nhw'n gwrando ar storïau eu ffrindiau hefyd. Wrth i'r storïau ddatblygu, mae Aled a Siân yn dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn arddangos eu harwyddion a'u symbolau o'u cwmpas.

Bear Lands Publishing